astudiaethachos

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Ithel Davies Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd y Prosiect

Agorodd Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn y Barri, yn Ne Cymru ei drysau am y tro cyntaf yn 2000 ac mae wedi bod yn defnyddio *'Pathways for Schools'* am bedair blynedd. Fel ysgol newydd, roeddent yn awyddus i fabwysiadu dulliau newydd i ddelio â phwysau gwaith athrawon. Roeddent eisiau cynigion cyfannol i brosesau ysgol a pharatosant y ffordd gyfer *'Pathways for Schools'* mewn cydweithrediad â Lisol i gynhyrchu adnodd integreiddiedig a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan yr holl ddefnyddwyr yng nghymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol nawr yn defnyddio'r holl lwybrau a gynigir gan y system ac mae'n lysgennad ar gyfer y feddalwedd, gan arddangos eu alluoedd i ysgolion eraill yn yr ardal a ddaw i ymweld â nhw.

Dywed Ithel Davies, Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd y Prosiect *'Pathways for Schools'* am y system: "Mae ysgolion ledled Cymru yn wynebu her enfawr wrth reoli pwysau gwaith a chyfathrebu yn eu hysgolion. Trwy baratoi'r ffordd ar gyfer y prosiect hwn gyda Lisol, rydym yn symud tuag at amgylchfyd heb bapur gan wella cyfathrebu rhwng athrawon, disgyblion a rhieni yn aruthrol. Mae'r system wedi bod yn ei le am dros bedair blynedd bellach ac mae'n cefnogi'r ffordd rydym yn dymuno rhedeg yr ysgol i'r dim."

"Mae cymaint o becynnau meddalwedd ar gyfer ysgolion sydd wedi eu paratoi eisoes na sydd yn ateb eich holl ofynion, ac o ganlyniad, dim ond rhannau penodol o'r pecyn rydych chi'n defnyddio. Cawsom ein denu i weithio gyda Lisol am fod *'Pathways for Schools'* yn hynod o hyblyg yn ei gynigion a gallwn fowldio'r system i weithio drosom ni ac nid y gwrthwyneb."

Mewn adroddiad ESTYN diweddar ar yr ysgol, canmolwyd y defnydd o dechnoleg a ddefnyddir i ddelio â'r materion allweddol o reoli pwysau gwaith a dywedwyd fod y cofnodi effeithiol o asesiadau, adrodd yn ôl i reini, monitro disgyblion ac adnabod tangyflawni yn **"dda iawn"**.

Trafoda Ithel rai o'r elfennau mwyaf defnyddiol o'r system: "Yn ein blwyddyn gyntaf, llaw-ysgrifennon ni'r holl adroddiadau ysgol, un adroddiad llawn a dau adroddiad interim. Trosglwyddwyd ein holl staff gweinyddol i gwblhau'r dasg hwn am tua pythefnos yn ystod y tymor. Unwaith yr oeddem wedi dechrau gweithio gyda Lisol, roedd y newid i ysgrifennu adroddiadau ar-lein yn ddidrafferth ac nid ydym wedi edrych yn ôl. Nawr dim ond un aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli'r system a gofalu am staff yn ystod y cyfnod o ysgrifennu adroddiadau.

"Mantais arbennig arall i ni yw'r ffaith fod ein staff yn medru cael mynediad i'r system o'u cartrefi sy'n golygu nad oes rhaid iddynt aros yn ysgol er mwyn cwblhau tasgau."

> "Mae'r llwybrau rhieni yn galluogi rhieni i wirio amserlen gwersi, dyddiad cau gwaith cartref, targedau, graddau, ffigurau presenoldeb a llawer mwy yn ogystal"

Yn 2004 sefydlodd Bro Morgannwg grwp prawf o rieni i gyflwyno'r defnydd o'r llwybrau rhieni yn yr Ysgol.

Mae'r llwybrau rhieni yn galluogi rhieni i wirio amserlen gwersi, dyddiad cau gwaith cartref, targedau, graddau, ffigurau presenoldeb a llawer mwy yn ogystal. Am eu bod hefyd wedi gweithio gyda Lisol i ddatblygu gwefan allanol Bro Morgannwg, gall reini ymweld â'r wefan trwy'r system trwy ardal ddiogel ar ôl iddynt dderbyn enw mewngofnodi a chyfrinair.

Mae Ithel nawr yn ymweld ag ysgolion cynradd yn y cyffiniau i siarad â rhieni disgyblion ym mlwyddyn chwech a fyddai o bosib yn danfon eu plant i Fro Morgannwg. Caiff y rhieni wybod am eu gallu i logio i fewn adref i wirio gwaith cartref, amserlenni a chyhoeddiadau sy'n arf arbennig yn strategaeth marchnata'r ysgol."